EIDCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofrestru gyda EIDCymru

**Trwy gofrestru gyda EIDCymru, gallwch wneud y canlynol:**

- Gweld eich cofnodion symud blaenorol.
- Derbyn symudiadau i'ch fferm o farchnadoedd a ffermwyr eraill.
- Cwblhau eich Stocrestr Flynyddol.
- Cofnodi eich symudiadau yn electronig.

1. **Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif cyn dechrau defnyddio EIDCymru.**

   Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch ar gyfer cwblhau'r broses gofrestru:

   - Eich cyfeiriad e-bost
   - Rhif y Daliad (CPH): (CPH eich prif fferm ac unrhyw rifau CPH eraill sy'n rhan o'ch daliad/fferm)
   - Prif gyfeiriad
   - Eich rhif ffôn cyswllt

2. **Agorwch wefan EIDCymru, gan ddefnyddio'r cyfeiriad www.eidcymru.org yna pwyswch ar y ddolen "Creu Cyfrif Newydd".**




3. **Nodwch eich enw, yna'ch cyfeiriad e-bost cyn creu enw defnyddiwr a chyfrinair ar gyfer eich cyfrif.**

   Pwyswch **"Creu eich Cyfrif EIDCymru"** i barhau i'r sgrîn nesaf.



4. Nodwch eich prif rifau CPH a diadell ynghyd a'ch rhifau ffôn.

   Mae lle i'ch cyfeiriad cyswllt hefyd os yw'n wahanol i gyfeiriad y prif ddaliad, ac i nodi eich pecyn meddalwedd ferm (os yn berthnasol).




5. Unwaith byddwch wedi nodi eich holl fanylion pwyswch y botwm "Gorffen ac agor eich cyfrif EIDCymru" ar waelod y dudalen




6. Caiff neges ei hanfon i'ch cyfeiriad e-bost a bydd angen i chi bwyso ar y ddolen sydd yn yr e-bost i weithredu eich cyfrif a chwblhau'r broses gofrestru.

**Ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar EIDCymru nes bydd eich cyfrif yn weithredol.**

Diolch am gofrestru gyda EIDCymru.

I gadarnhau'ch cyfeiriad e-bost, cliciwch ar y ddolen ganlynol a logiwch ymlaen: Ysgogwch eich cyfrif.

Cofion

Tîm EIDCymru

01970636959




7. Ar ôl i chi weithredu eich cyfrif byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau bod y broses gofrestru wedi'i chwblhau a'ch bod yn gallu dechrau defnyddio EIDCymru.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch gyda EIDCymru ar 01970 636959 neu drwy e-bost: cysylltu@eidcymru.org**

OGL WG39391 © Hawlfraint y Goron 2019